

Adnabod Awdur

Manon Steffan Ros

Dwed ychydig wrthon ni am *Pobol Drws Nesaf*.

Mae gen i blant fy hun, ac wrth iddyn nhw fod yn edrych ar beth sy'n mynd ymlaen yn y byd ac yn clywed y newyddion ar y radio yn y tŷ – ro'n i'n teimlo bod o'n syniad sgwennu rhywbeth i'n atgoffa ni fel rhieni, ond i ddweud wrth blant hefyd, ei bod hi'n ocê bod pawb 'ychydig bach yn wahanol. Mae'r stori am *aliens*: mae 'na *aliens* gwyrdd ac *aliens* piws a mae eu ffordd nhw o fyw'n wahanol, maen nhw'n siarad gwahanol ieithoedd ac mae'r stori'n sôn am ffitio cyfeillgarwch o gwmpas y pethau yna.

Sut brofiad oedd ysgrifennu'r llyfr?


Dwi wastad wir yn mwynhau'r broses o sgwennu ond dwi'n casáu ailddrafftio'r peth. Dwi'n casáu gwneud unrhyw waith ar rywbeth pan dw i wedi ei orffen unwaith. Dwi'n eitha diamynedd ond wnes i fwynhau hon yn enwedig achos 'mod i'n gallu cydweithio efo Jac Jones unwaith eto, achos neith Jac ddim jest gwneud y lluniau. Mae o'n fy holi i ac yn trio gwthio'r stori ac yn trio rhoi rhyw haen wahanol yn y lluniau hefyd, felly mae gennyf ti'r geiriau dwi wedi eu creu ond hefyd mae gennyf ti'r byd dwi a Jac wedi ei greu ar y cyd.

"Am gymeriadau gwych. Dwi wrth fy modd gyda nhw. Maen nhw'n fy atgoffa o fy rheulu!"

disgybl Ysgol Gynradd
Dyffryn Banw

"Dyma gamp partneriaeth awdur profiadol a darlunydd creffnus yn eu gem o lyfr. Mae stori Manon Steffan Ros a dehongliad lluniau Jac Jones yn ddeuawd perffaith."

Panel Beirniaid Tir na n-Og



Dwed ychydig amdanat a sut ddoist ti'n awdur.

Mi wnes i ddod yn awdur pan oeddwn i'n un ar hugain – wnes i ddechrau sgwennu'r adeg honno. Ro'n i'n feichiog efo fy mhlentyn cynta ac ro'n i'n methu cario 'mlaen i weithio achos ro'n i'n sâl iawn. Ro'n i eisiau rhywbeth

Hoff lyfrau dy blentyndod?

Boy (Roald Dahl),
a Ffiwsi ... Be?
(Irma Chilton).

Hoff gymeriad o fyd llyfrau plant?

Efa o gyfres
y Melanai (Bethan
Gwanas).

Oes gyda ti gyngor ar gyfer darpar awduron?

Y cyngor dwi'n rhoi ydy hyn – mae pob awdur yn gweithio mewn gwahanol ffyrdd, ac mae hyn yn grêt. Mae rhai awduron yn cynllunio'n hynod o ofalus ac yn gwneud lot o waith ymchwil; dwi ddim yn gwneud y pethau 'na. Dwi byth byth,

Hoff le?

Adre yn
Nhywyn.

Hoff ffilm?

Big Fish.

Hoff raglen deledu?

Parch.

Dewis o superpower?

Nofio o dan y môr heb orfod anadlu.

Hoff air?

Trugaredd.

byth yn gwneud cynllun – dwi byth yn gwybod be sy'n mynd i ddiwydd ar ddiwedd y stori pan dwi'n dechrau sgwennu. Felly fedra i gael syniad yn fy mhen am gymeriad a jest dechrau sgwennu am y cymeriad yna.

O ran lleoliad – yn aml iawn, fedra i weld y lle yn fy mhen, a chyn belled â 'mod i'n nabod y cymeriad dwi'n sgwennu amdano

Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?

Twitter.

fo, dwi ddim yn poeni am y stori. Dwi'n gwbod y bydd o'n ddarllenadwy os ydy'r cymeriad yn ddigon difyr. Fy nghyngor i, felly, yw jest gwnewch o.

Stopiwch gwneud esgusodion a stopiwch gorfeddwl. Mae pobol yn meddwl am sgwennu llyfr – neu sgwennu nofel yn enwedig – fel rhywbeth sy'n gorfod brifo a bod rhaid i chi chwysu gwaed. Dydy o ddim yn gorfod bod fel 'na. Mae o'n gallu bod yn hwyl ac yn gatharsis; mae o wir yn eich helpu chi a dach chi fod i'w joio fo. Felly, gwnewch o, rŵan ... ewch i sgwennu!

Hoff swydd, heblaw awdur?

Gweini mewn mewn tafarn neu mewn bwyty.

Pobol Drws Nesaf
ISBN 9781784617233
Y Lolfa £3.99

Top tip i ddarpar awduron?

Peidiwch â meddwl gormod amdano. Jest gwnewch o.

Beth sy'n dod â gwên?

Cael coflaid a sws gan fy hogyn bach i.